**<u>Pwyllgor Diwylliant CC 05-03 (p.8)</u>**

**Dyddiad: 12 Mawrth 2003**

**Amser: 9.00 – 12.30**

**Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Astudiaeth Gwmpasu – Adolygiad o’r polisi ar ddiwylliant Eingl-Gymreig: drama o Gymru drwy gyfrwng y Saesneg – ffilm a’r ddelwedd symudol**

**Berwyn Rowlands – Prif Weithredwr, Sgrîn Cymru Wales**

**Mawrth 2003**

***Cyflwyniad***

Mae’n bleser gennyf gael fy ngwahodd i gymryd rhan yng nghamau cyntaf yr adolygiad hwn. Dros y pum mlynedd diwethaf, bu Sgrîn Cymru Wales yn ymrwymedig i ddatblygu diwylliant delwedd symudol cryf yng Nghymru sy’n dathlu ein profiadau penodol ac amrywiol drwy’r iaith Saesneg.

Yr asiantaeth genedlaethol sy’n gyfrifol am ddatblygu polisïau a chymorth ar gyfer agweddau economaidd a diwylliannol ffilmiau, teledu a’r cyfryngau newydd yw Sgrîn Cymru Wales. Yn gwmni sy’n gyfyngedig drwy warant, cefnogir Sgrîn Cymru Wales gan Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Masnach Ryngwladol Cymru, Cyngor Ffilmiau’r DU a darlledwyr yng Nghymru – BBC Cymru, ITV1 Cymru a S4C.

Mae’r papur hwn yn amlinellu’r prif feysydd y cred Sgrîn Cymru Wales y dylid eu hystyried gan unrhyw adolygiad manwl pellach o ddiwylliant Eingl-Gymreig. Ein cred ni yw y bydd y ddelwedd symudol – ar y sgrîn sinema; y teledu neu lwyfannau digidol eraill – yn ganolog i’r broses o ddatblygu diwylliant bywiog, hyderus drwy gyfrwng y Saesneg ledled Cymru yn ystod y ganrif hon.

***Y Sefyllfa Bresennol (Ffilm)***

Ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, cafwyd cefnogaeth a buddsoddiad sylweddol ym maes drama drwy gyfrwng y Gymraeg, yn bennaf drwy’r bedwaredd sianel iaith Gymraeg S4C. Llwyddodd ffilmiau fel *Hedd Wyn* a enwebwyd ar gyfer Gwobr yr Academi*; Rhosyn y Rhith; Un Nos Ola’ Leuad; Mapiwr; Dafydd* a *Branwen* i sicrhau bod amrywiol brofiadau, hanes a realiti Cymru

wedi'u recordio a'u rhannu gyda chynulleidfaoedd ledled y byd.

Ar y llaw arall, ni fu ffilmiau Cymreig drwy gyfrwng y Saesneg mor ffodus hyd yma. Penderfynodd Sgrîn y dylid ceisio unioni rhywfaint o'r diffyg cydbwysedd hwnnw drwy sianelu'r rhan fwyaf o'i gymorth tuag at ddatblygu a chynhyrchu ffilmiau drwy gyfrwng y Saesneg. O ganlyniad i'r polisi hwn, gwelwyd cynnydd cyson yn nifer y projectau ffilm y gellir eu hystyried yn ffilmiau Eingl-Gymreig ac yn ansawdd y ffilmiau hyn.

Mae gweithgareddau cyfredol yn cynnwys:

- Screen Gems. Bellach yn ei drydedd flwyddyn, mae'r cynllun blaenllaw hwn ar gyfer gwneuthurwyr ffilmiau newydd, mewn partneriaeth ag ITV1 Cymru a Chyngor Ffilmiau'r DU, yn cynhyrchu llechen o ddeg ffilm tair munud a gomisiynir gan awduron a chyfarwyddwyr newydd. Yn 2003/04, bydd y ffilmiau a gomisiynir naill ai'n storïau caru neu'n storïau arswyd.

- Ffilmiau Byrion 10 Munud. Cynllun newydd â'r nod o wneud y gorau o fuddsoddiad arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer ffilmiau byrion. Bwriad y cynllun hwn yw galluogi gwneuthurwyr ffilmiau i ennill mwy o brofiad ar brojectau hwy sydd â mwy o gyllideb. Bydd y broses o wneud ffilmiau â mwy o sylwedd (ac o bosibl, ffilmiau mwy arbrofol) yn helpu gwneuthurwyr ffilm talentog i symud o ffilmiau byrion i ffilmiau nodwedd.

- Delweddau Digidol. Mae'r cynllun hwn, mewn partneriaeth â BBC Cymru, yn comisiynu tair ffilm ddigidol fer yn edrych ar y Gymru gyfoes o safbwynt lleiafrifol. Yn 2002/03, rhoddwyd blaenoriaeth i ffilmiau a oedd yn edrych ar faterion yn ymwneud ag amrywiaeth diwylliannol. Yn 2003/04, bydd y ffilmiau a gomisiynir yn edrych ar faterion sy'n ymwneud ag anabledd.

- Cronfa Argraffu. O eleni, bydd Sgrîn yn cynnig grantiau i wneuthurwyr ffilmiau sy'n byw yng Nghymru i'w galluogi i gael print arddangos o'u ffilm. Nod y gronfa yw ymestyn yr amrywiaeth o ffilmiau byrion sydd ar gael i gynulleidfaoedd a cheisio sicrhau bod ffilmiau â chyllideb fach, ffilmiau sydd wedi'u hariannu gan y gwneuthurwyr ffilmiau eu hunain, a ffilmiau gan fyfyrwyr yn fwy hygyrch.

- Brecwast Sgriptiau. Yn dilyn y cynllun peilot llwyddiannus ar ddiwedd 2002, caiff y cynllun hwn ei ymestyn er mwyn darparu cyfleoedd i grwpiau o awduron nad yw eu sgriptiau ffilm wedi cael eu cynhyrchu hyd yma i gyfarfod unwaith y mis dros frecwast am gyfnod o chwe mis i weithio ar eu sgriptiau a derbyn cyngor a hyfforddiant gan bobl yn y diwydiant.

- Arian y Loteri. Dosberthir arian y Loteri ar gyfer ffilmiau yng Nghymru gan Sgrîn o dan gytundeb dethol â Chyngor Celfyddydau Cymru. Ar hyn o bryd, mae tua £900 000 ar

gael bob blwyddyn ar gyfer projectau ffilm. Defnyddir yr arian hwn i gefnogi'r broses o gynhyrchu tair ffilm nodwedd ar gyfartaledd ac i ddarparu deg o fenthyciadau ar gyfer datblygu projectau nodwedd. Disgwylir i ganllawiau ariannu'r Loteri gael eu hadolygu yn 2003/04 er mwyn sicrhau bod y cymorth yn cael ei ganolbwyntio'n amlwg ar gymorth ar gyfer ffilmiau nodwedd a wneir gan gwmnïau, cynhyrchwyr ac awduron o Gymru yn ogystal â phrojectau sy'n ddiwylliannol berthnasol i Gymru.

- Cronfa Greadigol i Gymru. Bu Sgrîn Cymru Wales, mewn partneriaeth â Chyllid Cymru a chyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynllunio'r gronfa newydd bwysig hon am dros ddeunaw mis. Bydd y gronfa arfaethedig, a fydd werth £10 miliwn dros bum mlynedd, yn darparu cymorth ar gyfer projectau ffilm nodwedd â chyllidebau mwy sydd wedi'u hanelu at gynulleidfa sinema prif ffrwd yn ogystal â phrojectau teledu a'r cyfryngau newydd.

Yn ogystal â'r cymorth uniongyrchol ar gyfer datblygu a chynhyrchu ffilmiau Cymreig drwy gyfrwng y Saesneg, mae Sgrîn Cymru Wales (drwy'r adrannau Arddangos ac Addysg) yn weithredol yn nhermau gwaith datblygu cynulleidfaoedd a chynyddu argaeledd a hygyrchedd ffilmiau Cymreig drwy gyfrwng y Saesneg i gynulleidfa Gymraeg.

- Mae Ffres, yr •yl delweddau symudol i fyfyrwyr, yn cynnig llwyfan ar gyfer arddangos gwaith myfyrwyr y delweddau symudol yng Nghymru ac yn rhoi'r cyfle i'r gwaith hwnnw gael ei adolygu gan gyfoedion. Y llynedd, cymerodd dros 300 o fyfyrwyr ran yn y digwyddiad pedwar diwrnod.

- G•yl Sgrîn Caerdydd. Mae prif ddigwyddiad ffilm Cymru (sy'n cwmpasu teledu a'r cyfryngau newydd yn ogystal â ffilmiau) yn dod â phobl sy'n gweithio yn y diwydiant a rhaglen ffilmiau ryngwladol gyffrous at ei gilydd gan helpu cynulleidfaoedd i werthfawrogi'r datblygiadau cyfredol yn y byd ffilmiau yng Nghymru a rhoi'r datblygiadau hyn yn eu cyd-destun.

- Diwrnod Sinema Cymru. Yn ddathliad blynyddol o'r ddelwedd symudol ledled Cymru, mae'r digwyddiad hwn yn llwyddo i arddangos amrywiaeth y talent yng Nghymru a'r rôl a chwaraeir gan y ddelwedd symudol o ran diffinio ein diwylliant.

- Taith Ffilmiau Byrion. Yn deillio o Ddiwrnod Sinema Cymru, mae'r daith ffilmiau byrion flynyddol yn rhoi'r cyfle i gynulleidfaoedd weld gwaith diweddaraf gwneuthurwyr ffilmiau newydd Cymru.

Drwy gydweithio â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mae Sgrîn yn cefnogi'r Archif Sain a Sgrîn Genedlaethol, lle y lleolir casgliad sylweddol o ddelweddau symudol a wnaed yng Nghymru neu sy'n berthnasol i Gymru. O arloeswyr cynharaf y sinema yng Nghymru fel Arthur Cheatham, i anturiaethau wedi'u hanimeiddio Jerry the Tyke i ffilmiau arbrofol a gomisiynwyd

gan Gyngor Celfyddydau Cymru a’r cynyrchiadau diweddar sy’n deillio o gynlluniau fel Screen Gems, mae’r Archif yn ceisio hyrwyddo treftadaeth delweddau symudol Cymru i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr a chynulleidfaoedd.

Mae Comisiwn Sgrîn Cymru – partneriaeth rhwng Sgrîn, Awdurdod Datblygu Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru – yn ceisio gwneud y gorau o’r buddiannau economaidd y gallai Cymru fanteisio arnynt drwy ffilmiau. Yn ogystal â hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer cynyrchiadau delweddau symudol o bob math, mae’r Comisiwn yn gadarn o blaid datblygu’r sector cynhyrchu cynhenid.

***Materion sy’n gysylltiedig â datblygu ffilmiau Cymreig drwy gyfrwng y Saesneg ymhellach***

Nid yw amrywiaeth eang y gweithgareddau a nodir uchod na’u natur amrywiol yn hwyluso’r broses o ddiffinio ffilm Gymreig drwy gyfrwng y Saesneg yn haws. Beth sy’n gwneud ffilm yn un Cymreig?

- Mwy na lleoliad. Er bod defnyddio Cymru fel lleoliad yn fanteisiol i’n heconomi ac ymwybyddiaeth ryngwladol o’n gwlad, nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu ein diwylliant neu’n cyfrannu at ei ddatblygiad.

- Mwy na mynediad. Yn amlwg, mae’r ddelwedd symudol yn elfen bwysig sy’n cynorthwyo pobl Cymru i goethi, diffinio ac adlewyrchu eu hunaniaeth a’u diwylliant ond dim ond pan fydd gan y bobl hynny fynediad i’r cynnyrch – y broses gynhyrchu a’r broses o arddangos y gwaith terfynol - y gall y broses hon weithio. Nid yw mynediad yn ddigon ynddo’i hun.

- Mwy na iaith. Mae mynegiadau o ddiwylliant Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg yn haws eu diffinio oherwydd natur unigryw yr iaith. Ar y llaw arall, mae Saesneg bellach yn un o ieithoedd rhyngwladol y byd ac fe’i ddefnyddir gan nifer o bobloedd i fynegi eu diwylliant penodol. Beth sy’n wahanol am y Saesneg a ddefnyddir yng Nghymru a chan y Cymry sy’n helpu i ddiffinio ein diwylliant?

Credaf y bydd unrhyw adolygiad o ddiwylliant Eingl-Gymreig yn wynebu tasg anodd. Bydd yn rhaid iddo geisio nodi’r ffactorau hynny sy’n arwain at ymdeimlad o berchenogaeth ar ddarn o waith. Mae lleoliadau ffilm dramatig, mynediad ac iaith oll yn gwneud y diffiniad hwnnw o berchenogaeth yn haws, ond beth am y ffactorau llai cyffyrddadwy hynny – y stori a’r cyd-destun?

Bu ymagwedd Sgrîn yn un o feithrin a datblygu talent greadigol drwy’r dulliau ymyrryd a’r cymorth a nodir uchod ar yr un llaw, ynghyd â mesurau datblygu cynulleidfa ar y llaw arall, yn y gobaith o greu amodau a fydd yn sicrhau bod ymdeimlad o berchenogaeth a rennir yn

datblygu ac yn ffynnu. Credwn fod ein hymagwedd yn un llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes ffordd hawdd o fesur llwyddiant ein dulliau ymyrryd, o leiaf yn y tymor byr, ac rydym o'r farn y dylai unrhyw adolygiad o ddiwylliant Eingl-Gymreig ystyried yn ofalus pa fesurau a fabwysiedir ganddo i fesur effeithiolrwydd neu ddiffyg effeithiolrwydd y dulliau ymyrryd a'r polisïau.

Nid yw perchenogaeth yn rhywbeth y dylid ei mesur yn nhermau diwylliannol yn unig. Credwn y dylai'r budd a geir o allu hawlio perchenogaeth dros waith diwylliannol ddod â budd ariannol i Gymru hefyd. Yn y gorffennol, ni lwyddwyd i gadw llawer o dalent Cymru yng Nghymru. Mae actorion Cymreig, fel Richard Burton a Syr Anthony Hopkins, wedi datblygu eu gyrfaoedd y tu allan i Gymru ac ychydig iawn o fudd ariannol, os o gwbl, a ddaeth i ni.

Mae angen nid yn unig i ni ddatblygu ymdeimlad clir o berchenogaeth o ran corff o waith ond sicrhau y daw â gwobr ariannol i Gymru hefyd.

Credaf y gellir cyflawni hyn os rhoddir y strwythurau a'r mecanweithiau cymorth priodol ar waith a fydd yn caniatáu i'n dyfeiswyr cynnwys talentog aros yma yng Nghymru gyda'r hawliau i'w gwaith (neu o leiaf cyfran sylweddol o'r hawliau hynny) yn aros yma hefyd. Drwy ddychwelyd yr elwa o'u gwaith i Gymru, fy ngobaith yw y gallwn greu cymuned delweddau symudol gynaliadwy sydd â'r gallu i dyfu a chynyddu ei chynhyrchiant.

Yn nhermau nifer y ffilmiau a gynhyrchir, nid oes amheuaeth bod gennym dipyn o ffordd i fynd cyn cyrraedd lefel cynhyrchu a fydd yn sicrhau cynrychiolaeth gwbl gynrychioliadol, amrywiol a chyflawn o ddiwylliant Eingl-Gymreig ar sgrîn y sinema. Mae polisi Sgrîn hyd yma wedi canolbwyntio ar gynyddu datblygiad a meithrin talent newydd. Yn dilyn lansio'r Gronfa Greadigol i Gymru byddwn yn gallu cynyddu'r nifer o ffilmiau nodwedd a gynhyrchir yn sylweddol (o dri i saith y flwyddyn) a chychwyn ar y broses o gwblhau'r darlun.

Mae'r weledigaeth a amlinellir yn *Cymru Greadigol: Dyfodol Creadigol*, sef Cymru fywiog, ddwyieithog lle mae cyfleoedd i bawb gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a phrofiadau diwylliannol eraill drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gyraeddadwy. Bydd sicrhau ymdeimlad o berchenogaeth yn ganolog i'r broses o gyflawni'r weledigaeth hon, a bydd angen i'r adolygiad fynd i'r afael â strategaethau sy'n anelu at y nod hwn.